PAM FOD PRYDLONDEB MOR BWYSIG?

Mae'n **DDECHRAU DA** i'r diwrnod ac yn cyflwyno meddwl cywir a phositif i'ch plentyn i wneud y mwyaf o'u diwrnod o ran dysgu a gweithgareddau.

Mae prydlondeb yn gysylltiedig â phresenoldeb da a gwyddwn fod gan fynychwyr da fwy o gyfleoedd, mwy o gefnogaeth ac felly'n cyflawni mwy!

HEFYD…

Mae'n helpu eich plentyn i wneud ffrindiau (ar y maes chwarae) sy'n arwain at fwy o hunan-hyder ac felly **LLWYDDIANT**

AC YN…

Paratoi eich plentyn ar gyfer eu dyfodol - yn goleg, gwaith neu brifysgol. Os ydyn nhw'n credu bod troi i fyny i bethau'n hwyr yn dderbyniol yna mae perygl iddyn nhw golli eu lle neu swydd!

MATHAU GWAHANOL O FOD YN HWYR

1.Hwyr cyn i'r cyfnod gofrestru cau

Os yw eich plentyn ychydig funudau yn hwyr maen nhw wedi colli'r cyfle i ddweud helo a chwarae gyda ffrindiau. Maen nhw'n debygol o deimlo'n ansicr a swil wrth iddyn nhw ddechrau gwersi'r bore.

2. Hwyr ar ôl i gofrestru gau

Mae'n cyfri fel absenoldeb anawdurdodedig ac yn dangos ar gofnod presenoldeb eich plentyn. Nid yn unig mae eich plentyn yn colli'r cyfle i gwrdd â'u ffrindiau cyn ysgol maen nhw'n debygol o golli dechrau gwersi ac oherwydd hynny yn eu gwneud nhw deimlo'n ansicr, swil a llawer llai o hyder na'u cyfoedion wrth i'r wers symud ymlaen.

Yr effaith y mae bod yn hwyr yn ei gael ar addysg eich plentyn:

5 munud yn hwyr bob dydd	**colli 3 diwrnod bob blwyddyn**
10 munud yn hwyr bob dydd	**colli 6 diwrnod bob blwyddyn**
15 munud yn hwyr bob dydd	**colli 10 diwrnod bob blwyddyn**
30 munud yn hwyr bob dydd	**colli 19 diwrnod bob blwyddyn**

AWGRYMIADAU GWYCH YSGOL GLAN CONWY

Cydweithio i wneud yn siŵr fod ganddyn nhw bob dim yn barod y noson gynt h.y. llyfrau, gwisg addysg gorfforol neu nofio, iwnifform!

Gwneud yn siŵr fod gan eich plentyn drefn amser gwely rheolaidd a'u bod nhw'n cael digon o amser i orffwys a ddim yn ei chael yn anodd codi yn y bore.

Buddsoddi mewn cloc larwm da a dibynadwy - a'i wneud yn rhan o drefn amser gwely eich plentyn.

Ceisiwch wneud yn siŵr fod eich plentyn yn cael brecwast da i'w paratoi nhw'n barod am y dydd - mae gennym glwb brecwast gwych y gallwch ei ddefnyddio os ydych angen bod yn y gwaith yn gynnar.

Cael cynllun wrth gefn i gael eich plentyn i'r ysgol os bydd rhywbeth yn newid yn eich cynlluniau - ffrindiau neu deulu, cymdogion sydd yn mynd â'u plant i'r ysgol beth bynnag.

Caniatáu digon o amser ar gyfer eich siwrnai.

Os ydych yn ei chael yn anodd cael eich plentyn i'r ysgol ar amser yna siaradwch gyda'r athro a gofynnwch am help!

WHY IS PUNCTUALITY SO IMPORTANT?

It's a **GREAT START** to the day, putting your child in a positive frame of mind to make the most of the day's learning and activities.

Punctuality is linked to good attendance, and as we know, good attenders have more opportunities, more support and therefore achieve more!

ALSO…

It helps your child make friends (in the playground) which leads to improved self-confidence and therefore **SUCCESS**

AND…

It sets your child up for their future – whether it is college, work or university, they could lose their place or lose their job if they think it's ok to be late!

TYPES OF LATENESS

1. Late before register closes Your child is a few minutes late – but they have missed the opportunity to say hello to and play with friends. They are likely to feel unsettled and embarrassed as they start morning lessons.

2. Late after register closes This counts as an unauthorised absence and will show on your child's attendance record. Not only has your child missed the chance to meet with their friends before school, they are likely to have missed the start of lessons and could feel unsettled, embarrassed and much less confident than their classmates as the lesson moves on.

The impact of lateness on your child's learning:

5 minutes late every day	**3 days lost each year**
10 minutes late every day	**6 days lost each year**
15 minutes late every day	**10 days lost each year**
30 minutes late every day	**19 days lost each year**

YSGOL GLAN CONWY'S TOP TIPS

Work together to make sure they have everything ready the night before e.g. books, PE or swimming kit, uniform!

Make sure your child has a good bedtime routine so they get plenty of rest and don't struggle out of bed in the morning.

Invest in a good, reliable alarm clock – make setting it part of your child's bedtime routine.

Try to ensure your child has a good breakfast to set them up for the day – we have a super breakfast club you could use if you need to be at work early.

Have a back up plan for getting your child to school in case something crops up – friends or family, perhaps neighbours who are taking their children to school anyway.

Allow lots of time for your journey.

If you are finding it difficult to get your child to school on time, talk to a teacher and ask for help!